

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
26 Gorffennaf 2016, Gosen, Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL:	
Cyng C McGregor, D Morgan, W Vaughan, D ap Rhobert, D Pritchard, G D Williams ac aelodau o'r cyhoedd	
YMDDIHEURIADAU:	
Cyng W Williams, R G Parry (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan Cyng D Pritchard
2	Dechreuwyd gyda cyfarfod agored i drafod Cais cynllunio 23C280F Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol a parlwr godro yn Plas Llanfihangel, Capel Coch - cynllun diwygiedig a cais 23C280G cais llawn i newid defnydd adeiladau allanol i 12 annedd, gosod paced trin carthffosiaeth ynghyd a gwelliannau i'r mynedfa presennol yn Plas Llanfihangel, Capel Coch. Gweler 6.1 a 6.2 am sylwadau y cyhoedd a'r aelodau
3	DATGAN DIDDORDEB - Dim
4	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 10 Mai 2016. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn, Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D Morgan yn eilio. (Un cywiriad: Cyng W Williams a wnaeth sôn am y mater ynghylch y gamfa, nid Cyng W Vaughan)
5	MATERION YN CODI O'R COFNODION
5.1	Gor-yrru Llangwyllog - Disgwyl am adroddiad gan yr Heddlu
5.2	Gofeb Talwrn - Mae'r clerc wedi derbyn pris am £1171 + TAW gan Inigo Jones. Cytunwyd i symud ymlaen.
5.3	Hysbysffwrdd Capel Coch - mae'r hysbysffwrdd wedi cael ei osod.
5.4	Coed - Maes y Coed - Mae'r Clerc yn disgwyl am prisiau (wedi derbyn un pris gan Roundwood Tree Technology £720 + TAW). Gofynwyd i'r Clerc cael pris arall.
5.5	Damwain sgwar Talwrn - mewn llaw
5.6	Mainc Mynydd Bodafon - mewn llaw
5.7	Mynwent Llanddyfnan - Mae'r bin newydd wedi cyrraedd a mae'r Clerc wedi gosod cadwyn a clo
5.8	Llinellau Melyn - Dywedodd y Clerc ni fydd y Cyngor Sir yn gosod llinellau melyn wrth ymyl y lle ildio newydd yn Nhalwrn
5.9	Seddi gwag - Mae'r Clerc yn trefnu i'r seddi gwag cael eu hysbysebu
5.10	Tyllau ar y ffordd - Llanddyfnan - Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
5.11	Gamfa - llwybr cyhoeddus - Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
	Llofnod.....Cadeirydd 20.09.16

5.12	Baw ci Lon yr Ysgol - Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan y Cyngor Sir
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
6.1	23C280F Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol a parlwr godro yn Plas Llanfihangel, Capel Coch - cynllun diwygiedig. Sylwadau: Yn gyntaf, mae'r Cyngor yn teimlo bydd yr arogl o'r sied yn cario at anheddau preswyl yn union ar draws y ffordd. Mae'r safle yn anrhesymol a bydd yn cael ei gweld o'r ffordd. Mae lle ar gael yn y iard (allan o golwg) i adeiladu'r sied, sydd wedi'i sgrinio yn barod
6.2	23C280G cais llawn i newid defnydd adeiladau allanol i 12 annedd, gosod paced trin carthffosiaeth ynghyd a gwelliannau i'r mynedfa presennol yn Plas Llanfihangel, Capel Coch. Sylwadau: Yn gyntaf, a yw yr Adran Cynllunio wedi ymgynghori a'r Adran Briffyrdd? Mae'r Cyngor Cymuned yn awgrymu bod yr Adran Cynllunio yn gwrthod y cais ar y sail nad oes digon o wybodaeth am be mae nhw yn cynnig. Hefyd, mae'r Cyngor yn teimlo bod derbyn yr ail gais (yn canol ceisiadau eraill) yn amharchus i'r cyhoedd a'r Adran Cynllunio. Mae'r Cyngor hefyd yn deall mae dim ond tri eiddo sydd wedi derbyn gwybodaeth ynghylch y ceisiadau cynllunio. A yw gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn?
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
7.1	Inigo Jones - gweler 5.2
8	MATERION ARIANNOL
8.1	Penderfynwyd talu y canlynnol: Sion Jones £100 am gosod yr hysbysffwrdd yng Nghapel Coch
9	Materion ar gyfer y rhaglen nesaf
9.1	Tarmacio y ffordd yn Mynydd Bodafon
	Llofnod.....Cadeirydd 20.09.16